Rhif: **WG27484**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru



Llywodraeth Cymru

## Dogfen Ymgynghori

# Cynllun y Bathodyn Glas yng Nghymru

Newidiadau i gymhwysedd i gynnwys pobl sydd â namau dros dro, asesu a gorfodi 2016

Dyddiad cyhoeddi: **19 Ionawr 2016**
Ymatebion erbyn: **16 Chwefror 2016**

© Hawlfraint y Goron 2016
WG27484

| | |
|---|---|
| **Trosolwg** | Mae Cynllun y Bathodyn Glas yng Nghymru'n darparu mynediad at wasanaethau a chyfleusterau ar gyfer pobl sydd â namau symudedd parhaol sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd. Mae'r ymgynghoriad hwn yn amlinellu cynigion i gynnwys pobl sydd â namau symudedd dros dro yn y meini prawf cymhwysedd.<br><br>Mae'r papur hwn hefyd yn ymgynghori ar gynigion i wneud y prosesau ymgeisio'n fwy effeithlon i rai pobl sydd wedi derbyn bathodyn yn flaenorol.<br><br>Hefyd mae'r papur hwn yn ymgynghori ar gynigion i wella'r camau gorfodi mewn achosion o gam-drin a chamddefnyddio Cynllun y Bathodyn Glas. |
| **Sut i ymateb** | Cynhelir yr ymgynghoriad rhwng **19/01/2016** a **16/02/2016**. Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad hwn drwy lenwi'r holiadur sydd wedi'i atodi i'r ddogfen hon neu'r ddogfen a ddarperir ar ein gwefan isod. Cofiwch sicrhau bod eich ymateb yn ein cyrraedd ni erbyn **16/02/2016** yn y cyfeiriad post neu ar yr e-bost isod.<br><br>Nodwch a ydych yn ymateb fel unigolyn, yn cynrychioli safbwyntiau sefydliad neu'r ddau, wrth ymateb i'r ddogfen hon. Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad, nodwch yn glir pwy mae'r sefydliad yn ei gynrychioli ac, os yw hynny'n berthnasol, sut casglwyd safbwyntiau'r aelodau. |
| **Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** | **Mae fersiynau print mawr, Braille a sain o'r ddogfen hon ar gael ar gais ac mae ar gael mewn ieithoedd eraill hefyd.**<br><br>Os hoffech gael copïau papur o'r ddogfen hon neu'r holiadur, cysylltwch â ni ar y cyfeiriad isod:<br><br>Mae rhagor o wybodaeth am Gynllun y Bathodyn Glas yng Nghymru ar gael yn<br>http://wales.gov.uk/consultations/transport/bbscheme/?status=closed&lang=en |
| **Manylion cysylltu** | I gael rhagor o wybodaeth:<br><br>Tîm y Bathodyn Glas<br>Tîm Trafnidiaeth Gyhoeddus<br>Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>CAERDYDD CF10 3NQ<br><br>Ar y ffôn: 029-2082 6586<br><br>Neu ar e-bost blue.badge@wales.gsi.gov.uk |
| **Diogelu data** | Sut defnyddir y safbwyntiau a'r wybodaeth a roddir gennych i ni<br><br>Bydd unrhyw ymateb y byddwch yn ei anfon atom yn cael ei weld yn llawn gan |

staff Llywodraeth Cymru sy'n delio â'r materion mae'r ymgynghoriad yn ymwneud â hwy. Hefyd efallai y bydd staff eraill Llywodraeth Cymru yn ei weld er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau yn y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Hefyd efallai y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel rheol, cyhoeddir enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) y person neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb ochr yn ochr â'r ymateb. Mae hyn yn helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi cael ei gynnal yn briodol. Os nad ydych eisiau i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, dywedwch hyn wrthym yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn eu dileu.

Efallai y bydd enwau neu gyfeiriadau a gaiff eu dileu'n cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, ond nid ydym yn credu y byddai hyn yn digwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd ofyn am weld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi eto. Fodd bynnag, mae'r gyfraith yn caniatáu i ni ddal gwybodaeth yn ôl o dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am weld gwybodaeth rydym wedi ei dal yn ôl, bydd rhaid i ni benderfynu pa un ai i'w rhyddhau ai peidio. Os oes rhywun wedi gofyn i ni beidio â chyhoeddi eu henw a'u cyfeiriad, mae honno'n ffaith bwysig y byddem yn ei hystyried. Fodd bynnag, efallai y bydd rhesymau pwysig a fydd yn ein gorfodi i ddatgelu enw a chyfeiriad rhywun, hyd yn oed os yw wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r person ac yn gofyn am ei safbwynt cyn penderfynu'n derfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

## Y Rhagair

Rwyf yn gwybod bod Cynllun y Bathodyn Glas yn gymorth pwysig iawn i bobl anabl drwy ganiatáu iddynt barcio'n agos at eu cyrchfan, naill ai fel teithwyr neu yrwyr. Mae'n hanfodol bod y rhai y mae arnynt angen bathodyn yn cael un er mwyn sicrhau nwyddau, gwasanaethau a chyfleusterau sydd fel arall yn amhosib eu cael heb y bathodyn.

Mae'r cymhwysedd ar gyfer y Cynllun wedi'i ddatgan mewn deddfwriaeth ac, yn gyffredinol, mae'n gyfyngedig i bobl sydd â namau parhaol. Rwyf yn cydnabod bod gan rai pobl namau dros dro sy'n galw am gyfnodau sylweddol o driniaeth ac adfer ac, o ganlyniad, mae eu rhaglen adfer yn para mwy na blwyddyn. Rwyf yn credu y dylai person allu cael Bathodyn Glas yn yr achosion hyn hefyd, ac y bydd hyn yn cyfrannu at eu lles a'u hadferiad.

Rwyf yn deall bod llawer iawn o bryder wedi bod am Gynllun y Bathodyn Glas yng Nghymru. Mae'r papur hwn yn amlinellu cynigion i wella mynediad i'r Cynllun fel bod pob ymgeisydd yn cael ei drin yn gyfartal.

Hefyd, rwyf yn cynnig bod y camau gorfodi yn erbyn cam-drin a chamddefnyddio'r Cynllun yn cael eu tynhau fel bod y consesiynau gwerthfawr a ddarperir gan y Cynllun yn cael eu cadw ar gyfer y rhai sydd eu hangen fwyaf. Mae'n bwysig bod y Cynllun yn cael ei warchod ar gyfer y rhai sydd mewn angen mwyaf a bod y rhai sy'n camddefnyddio ac yn cam-drin y Cynllun yn dod yn ymwybodol o effaith eu gweithredoedd.

## Cefndir

Ar hyn o bryd, mae Cynllun Parcio'r Bathodyn Glas i Bobl Anabl ("y cynllun") yn galluogi pobl sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd i sicrhau gwasanaethau a chyfleusterau drwy gyfrwng amrywiaeth o gonsesiynau parcio. Mae'r cynllun yn bodoli ers 1971 a manylir ar nifer o feini prawf cymhwysedd yn y rheoliadau. Mae rhai meini prawf penodol yn darparu mynediad awtomatig i'r Cynllun, fel y manylir isod. Rhaid asesu meini prawf eraill ymhellach er mwyn cadarnhau bod y person yn gymwys ar gyfer Bathodyn Glas ("Bathodyn"). Yr awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am weinyddu'r cynllun a hwy sy'n asesu'r ceisiadau ac yn penderfynu ar gymhwysedd.

Mae'r cynllun wedi cael ei adolygu'n helaeth yn ystod y 5 mlynedd diwethaf. Yn benodol, comisiynodd y Gweinidog adolygiad gan grŵp o arbenigwyr [1] yn 2013, ac wedyn adolygiad pellach gan grŵp Gorchwyl a Gorffen yn 2015. Ystyriodd adroddiad 2015 ystod eang o dystiolaeth o bob agwedd ar gynllun y Bathodyn Glas, o'r meini prawf cymhwysedd i asesu a gorfodi. Mae'n cyflwyno tri argymhelliad ar ddeg ynghylch sut gellir gwella'r cynllun yn y meysydd hyn ledled Cymru.

Meini prawf cymhwysedd awtomatig:

- Yr ymgeisydd yn derbyn Cyfradd Uwch Elfen Symudedd y Lwfans Byw i'r Anabl (HRMCDLA)
- Yr ymgeisydd yn derbyn Taliad Annibyniaeth Bersonol (PIP), am ei fod yn bodloni Gweithgaredd Symudedd 1(f) (12 pwynt)
- Yr ymgeisydd yn derbyn Taliad Annibyniaeth Bersonol (PIP), am ei fod yn bodloni Gweithgaredd Symudedd 2 (c, d, e, f) (8 - 12 pwynt)
- Yr ymgeisydd yn derbyn Atodiad Symudedd Pensiwn Rhyfel
- Yr ymgeisydd yn derbyn Cynllun Iawndal y Lluoedd Arfog (tariff 1-8) gyda nam symudedd
- Yr ymgeisydd wedi'i gofrestru fel unigolyn sydd â nam 'difrifol' ar ei olwg

O dan y trefniadau hyn, ni fyddai person sy'n gallu dangos tystiolaeth ei fod yn bodloni un o'r meini prawf cymhwysedd hyn yn gorfod cael ei asesu ymhellach gan yr awdurdod lleol.

Dyma'r meini prawf a gaiff eu hasesu ymhellach:

- Plant o dan dair oed sydd angen offer mawr i gynnal eu bywyd neu sydd angen mynediad at driniaeth frys i achub eu bywyd
- Mae'r ymgeisydd yn yrrwr sydd ag anabledd difrifol yn y ddwy fraich ac sy'n methu gweithredu neu sy'n cael anhawster sylweddol gweithredu pob math, neu rai mathau, o fesuryddion parcio

[1] http://gov.wales/topics/transport/road-users/bluebadgeschemeinfo/bbmodernising/?skip=1&lang=cy
http://gov.wales/topics/transport/road-users/bluebadgeschemeinfo/bbmodernising/?lang=en

- Nid yw'r ymgeisydd yn gallu cerdded neu mae'n cael anhawster sylweddol cerdded (er enghraifft, mae'n cerdded yn eithriadol araf neu ddim ond gyda phoen mawr a byddai'n cymhwyso am HRMCDLA neu PIP Gweithgaredd Symudedd 2 (c - f) pe bai'n gwneud cais)
- Nid yw'r ymgeisydd yn gallu cynllunio na dilyn unrhyw siwrnai heb gymorth person arall oherwydd nam gwybyddol (a fyddai'n cymhwyso am ddyfarnu PIP Gweithgaredd Symudedd 1 (f) pe bai'n gwneud cais).

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r canlynol:

- Cynlluniau ar gyfer ymestyn y cymhwysedd i'r Cynllun i gynnwys pobl sydd â namau dros dro ac sydd angen triniaeth ac adfer sylweddol, sy'n effeithio ar eu symudedd
- Cynigion i wneud y prosesau gweinyddol yn fwy effeithlon mewn achosion ble mae'r ymgeisydd wedi cael asesiad manwl yn flaenorol.

Hefyd mae'r ddogfen hon yn gofyn am safbwyntiau am gamau gorfodi'r Bathodyn o ran twyll a chamddefnydd, gan gynnwys a ddylai awdurdod lleol allu canslo Bathodyn heb fod angen euogfarn berthnasol.

Gofynnir cwestiynau penodol yng nghorff yr ymgynghoriad. Ailadroddir yr un cwestiynau ar ddiwedd y ddogfen hefyd, er hwylustod, ac fe'u darperir ar y wefan fel dogfen ar wahân. Y bwriad yw i ymatebwyr lenwi'r Ffurflen Ymateb yr Ymgynghoriad.

Dim ond i Gymru mae'r ymgynghoriad hwn yn berthnasol.

**Bathodynnau Glas ar gyfer Pobl sydd â Namau Dros Dro**

**Y Mater**

Mae cymhwysedd am Fathodynnau Glas wedi'i ddatgan yn Rheoliadau Personau Anabl (Bathodynnau ar gyfer Cerbydau Modur) (Cymru) 2000 ("Rheoliadau 2000"). Ar hyn o bryd mae'r cynllun yn gyfyngedig i bobl sydd â namau parhaol. Canfu adolygiad diweddar o'r cynllun gan grŵp Gorchwyl a Gorffen y Gweinidog y dylai rhai pobl sydd â namau dros dro, sy'n cyfyngu ar eu symudedd, gael bathodyn. Er mwyn cynnwys meini prawf cymhwysedd newydd ar gyfer namau dros dro yn y meini prawf cymhwysedd presennol, byddai'n rhaid diwygio Rheoliadau 2000.

**Tystiolaeth dros Newid**

Yn 2002, cwblhaodd y Pwyllgor Ymgynghori ar Gludiant Pobl Anabl ("DPTAC") adolygiad o Gynllun y Bathodyn Glas a chyflwynodd 47 o argymhellion. Un argymhelliad, a gefnogwyd gan ymchwil annibynnol, oedd y dylai pobl sydd â nam symudedd a ddiffinnir yn glir ac y mae disgwyl iddo bara am gyfnod dros dro (ond dim llai na 12 mis) fod yn gymwys am Fathodyn.

Ceir namau dros dro eraill a all effeithio ar symudedd pobl. Er enghraifft, mae torri asgwrn yn aelodau isaf y corff yn gallu cyfyngu'n ddifrifol ar symudedd ond, fel rheol, am gyfnod byr mae hyn yn para (tua thri mis). Er ein bod yn derbyn bod cyfyngu difrifol ar symudedd yn yr achosion hyn, rhaid pwyso a mesur hynny yn erbyn anghenion deiliaid presennol y Bathodyn. Os rhoddir bathodyn i bawb sydd wedi torri asgwrn yn aelodau isaf y corff, bydd yn lleihau argaeledd y ddarpariaeth barcio benodol o ddydd i ddydd i rai o aelodau mwyaf agored i niwed cymdeithas.

**Yr Alban**

Mae'r rheoliadau yn yr Alban (Rheoliadau Personau Anabl (Bathodynnau ar gyfer Cerbydau Modur) (Yr Alban) - Diwygiad 2007 ("rheoliadau 2007 yr Alban") yn caniatáu i Fathodynnau gael eu rhoi am gyfnodau rhwng blwyddyn a thair blynedd. Y meini prawf cymhwysedd perthnasol ar gyfer Rheoliadau 2007 yr Alban yw "methu cerdded neu'n cael anhawster sylweddol cerdded oherwydd anabledd dros dro ond sylweddol sy'n debygol o bara am gyfnod o 12 mis o leiaf".

Yn ystod 2012-13, dyfarnodd yr Alban 1,164 o Fathodynnau o dan y categori nam dros dro (1.35% o'r bathodynnau a roddwyd y flwyddyn honno). Cynhelir yr asesiad o geisiadau dewisol yn yr Alban gan Asesiadau Meddygol Annibynnol ac nid yw'n cael llawer o effaith ar adnoddau awdurdodau lleol.

Nid ydym yn gwybod i ba raddau yn union y bydd ymestyn y cymhwysedd fel hyn yn cael effaith ar bobl yng Nghymru. Fodd bynnag, o ystyried yr effaith yn yr Alban fel canllaw bras, nid oes disgwyl i'r newid hwn arwain at gynnydd sylweddol yn y bathodynnau a roddir. Felly, nid yw'n debygol o gael effaith negyddol anghymesur ar y ddarpariaeth barcio bresennol. Fodd bynnag, pe bai ystod ehangach o namau dros dro'n cael eu cynnwys yn y cynllun yng

Nghymru, byddai hynny'n cael effaith fwy arwyddocaol, wrth reswm, ar y ddarpariaeth barcio bresennol.

**Cynigion**

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig diwygio Rheoliadau 2000 er mwyn caniatáu i Fathodynnau gael eu rhoi i bobl sy'n "*methu cerdded neu sy'n cael anhawster sylweddol cerdded oherwydd anabledd dros dro ond sylweddol sy'n debygol o bara am gyfnod o 12 mis o leiaf*".

**Cwestiwn 1**

Ydych chi'n cytuno y dylai pobl sy'n "*methu cerdded neu sy'n cael anhawster sylweddol cerdded oherwydd anabledd dros dro ond sylweddol sy'n debygol o bara am gyfnod o 12 mis o leiaf*" gael Bathodyn dros dro?

Ar hyn o bryd y bwriad yw i'r meini prawf gynnwys y bobl ganlynol:

- pobl sydd â thorasgwrn cymhleth yn y goes gyda theclynnau allanol
- pobl sydd wedi cael strôc neu anaf i'r pen ac sy'n adfer yn araf a graddol
- pobl sydd â thrawma i asgwrn y cefn, gan golli gallu niwrolegol yn y goes, ac sy'n adfer yn araf a graddol
- pobl sydd â nam difrifol ar allu'r goes ac sy'n aros am gymal newydd neu wedi cael un ac yn adfer yn arafach na'r disgwyl

**Cwestiwn 2**

Ydych chi'n meddwl y dylai'r namau sydd wedi'u rhestru uchod gymhwyso am fathodyn?

**Cwestiwn 3**

Ydych chi'n credu bod namau dros dro na fyddai'n cael eu cynnwys yn y meini prawf cymhwysedd arfaethedig ond a ddylai gael eu cynnwys?

Oherwydd cymhlethdod y namau hyn, ac yn arbennig y cyfnod maent yn debygol o bara, mae Llywodraeth Cymru'n cynnig y dylai ceisiadau o dan y categori hwn gael eu cefnogi gan weithwyr iechyd proffesiynol sy'n gyfrifol am driniaeth a/neu raglen adfer y claf, fel meddygon ymgynghorol, llawfeddygon ac arbenigwyr perthnasol. Fel dewis arall, gellid cyfeirio ymgeiswyr at therapydd galwedigaethol annibynnol er mwyn penderfynu ar gymhwysedd.

**Cwestiwn 4**

Ydych chi'n meddwl ei bod yn rhesymol gofyn i ymgeiswyr o dan y meini prawf cymhwysedd arfaethedig ar gyfer namau dros dro ddarparu tystiolaeth gan eu gweithwyr iechyd proffesiynol, neu gael eu cyfeirio at therapydd galwedigaethol?

Y bwriad yw i'r bathodynnau a roddir o dan y meini prawf hyn gael eu rhoi i bobl sydd â nam sy'n debygol o bara am gyfnod o 12 mis neu fwy yn unig.

Rydym yn cynnig y trothwy hwn er mwyn rhoi bathodyn i'r rhai sydd mewn angen mwyaf, heb roi gormod o bwysau ar y cynllun a pheri anfantais i'r rhai sy'n dibynnu ar fathodynnau ar hyn o bryd.

**Cwestiwn 5**

Am faint ddylid rhoi Bathodynnau o dan y meini prawf cymhwysedd arfaethedig ar gyfer namau dros dro?

## Prosesau Asesu Mwy Effeithlon

### Y Mater

Argymhellodd DPTAC yn eu hadroddiad yn 2002 na ddylai ceisiadau o dan y meini prawf dewisol gael eu cefnogi gan feddyg teulu'r ymgeisydd.

Fel ymateb, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar y mater hwn yn 2011. Yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad, nodwyd bod rhaid wrth ddull systematig o weithredu wrth asesu cymhwysedd, gan gynnwys cyfuniad o asesiad desg a chyfweliadau strwythuredig gyda rhai asesiadau gallu annibynnol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi adnoddau a chyfarwyddyd anstatudol i awdurdodau lleol i weithredu system asesiad desg gyda Gwasanaeth Ymgynghorol Annibynnol yn sail iddi.

### Tystiolaeth dros Newid

Adolygodd y grŵp Gorchwyl a Gorffen y cynllun yn 2015. Adolygwyd tystiolaeth o nifer o ffynonellau ganddynt a chafwyd tystiolaeth lafar ac ysgrifenedig gan dystion. Nodwyd ganddynt fod awdurdodau lleol yn gweinyddu'r cynllun mewn ffyrdd gwahanol a bod hyn wedi arwain at roi'r cynllun ar waith yn anghyson, yn enwedig mewn perthynas ag asesu'r meini prawf symudedd dewisol.

Mae'r grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi argymell bod meddygon teulu'n cael eu tynnu o'r broses a bod asesiadau gallu annibynnol yn cael eu cynnal yn ôl yr angen.

Roedd adroddiad gan yr Adran Iechyd yn 2006[2] yn datgan bod defnyddio trefniadau eraill yn lle cyfraniad meddygon teulu yn cynnig potensial i wella cyflymder y ddarpariaeth, gan dynnu sylw at y ffaith bod amseroedd ymateb yn amrywio ond eu bod yn gallu cymryd hyd at 12 wythnos.

### Cynigion

Cynigir bod Llywodraeth Cymru'n diwygio'r rheoliadau i ddatgan ei bod yn ofynnol i awdurdodau lleol ddefnyddio gweithwyr iechyd proffesiynol annibynnol yn unig, yn hytrach na gwybodaeth gan feddyg teulu ymgeisydd, os oes arnynt angen rhagor o gyngor fel sail i'w penderfyniad ynghylch ceisiadau o dan y meini prawf cymhwysedd dewisol ar gyfer symudedd.

### Cwestiwn 6

Ydych chi'n cytuno mai dim ond at weithwyr iechyd proffesiynol annibynnol ddylai awdurdodau lleol droi, ac nid meddygon teulu (lle mae angen arbenigedd meddygol ychwanegol), i benderfynu a yw ymgeiswyr yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd dewisol ar gyfer symudedd?

---

[2] Yr Adran Iechyd – Rhaglen Darparu Effeithlonrwydd mewn Gwasanaethau Gofal – Menter y Bathodyn Glas - 2006

**Cwestiwn 7**

A oes unrhyw amgylchiadau ble dylai gwybodaeth gan feddyg teulu gael ei defnyddio i asesu cais am Fathodyn yn eich barn chi? Os felly, beth yw'r amgylchiadau hyn?

**Y Mater**

Mae'r broses o wneud cais am Fathodyn yn gofyn i ymgeiswyr ddangos prawf o bwy ydynt, ble maent yn byw a thystiolaeth i ddangos eu bod yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd. Daw'r Bathodynnau i ben ar ôl tair blynedd, er mwyn gwarchod rhag traul ac fel bod modd newid nodweddion diogelwch y bathodyn rhag twyll neu ffugio.

**Tystiolaeth dros Newid**

Canfu'r grŵp Gorchwyl a Gorffen bod y broses ymgeisio am fathodyn yn gallu bod yn feichus o'i gweithredu bob tair blynedd. Argymhellodd y grŵp, os yw deiliaid bathodynnau wedi cael bathodyn ar ôl asesiad digon manwl, ac os gwelwyd na fyddai eu nam yn gwella, y dylai'r prosesau ar gyfer adnewyddu eu bathodyn fod yn fwy effeithlon.

Yr asesiadau manwl at bwrpas y broses hon yw'r rhai a gynhelir gan weithiwr iechyd proffesiynol annibynnol sy'n arbenigwr ym maes namau symudedd a gallu gwybyddol.

Roedd y grŵp yn derbyn y byddai'n rhaid i'r ymgeisydd ddarparu prawf o bwy ydyw a ble mae'n byw o hyd, ond ni ddylai orfod mynd drwy'r weithdrefn asesu lawn.

**Cynigion**

Cynigir bod Llywodraeth Cymru'n trefnu i brosesau mwy effeithlon fod yn eu lle ar gyfer deiliaid Bathodynnau er mwyn newid eu bathodynnau pan maent yn dod i ben, pan maent wedi cael asesiad digon manwl a phan nad oes disgwyl i'w nam wella. Y bwriad yw i gyfarwyddyd penodol ynghylch sut penderfynir ar hyn gael ei roi, gan ymgynghori â gweithwyr iechyd proffesiynol cymwys.

**Cwestiwn 8**

Ydych chi'n cytuno y dylid rhoi prosesau mwy effeithlon yn eu lle ar gyfer deiliaid Bathodynnau er mwyn iddynt gael newid eu bathodynnau pan maent yn dod i ben heb ailasesu?

**Y Mater**

Ceir nifer o feini prawf cymhwysedd "awtomatig" ar gyfer Bathodyn (h.y. pan mae rhywun yn gymwys heb unrhyw asesiad pellach) sy'n gysylltiedig â derbyn budd-daliadau lles; Cyfradd Uwch Elfen Symudedd y Lwfans Byw i'r Anabl (HRMCDLA), Taliad Annibyniaeth Bersonol (PIP), Gweithgaredd

Symudedd 1(f) (12 pwynt) neu Weithgaredd Symudedd 2 (c, d, e, f) (8 - 12 pwynt).

Yn adroddiad DPTAC yn 2002, argymhellwyd mai **dim ond** pobl dros 65 oed ddylai allu ymgeisio am Fathodyn o dan y meini prawf dewisol ar gyfer symudedd. Y rheswm am hyn yw nad yw pobl dros 65 oed yn gallu gwneud cais am Lwfans Byw i'r Anabl, sy'n cynnwys HRMCDLA. Mae PIP yn gyfyngedig hefyd i bobl mewn oedran gweithio. Mae meini prawf dewisol y Bathodyn Glas ar gyfer symudedd, sef "methu cerdded neu gael anhawster sylweddol cerdded" yn cyfateb i'r meini prawf a ddefnyddir yn yr asesiad ar gyfer HRMCDLA a chyfraddau rhagnodedig elfen symudedd y PIP.

Mae rhai pobl sy'n gwneud cais ar hyn o bryd am y Bathodyn wedi cael eu gwrthod am HRMCDLA neu gyfraddau rhagnodedig elfen symudedd y PIP. Yn yr achosion hyn, yn rhinwedd y meini prawf cyfatebol a ddefnyddir wrth asesu, maent eisoes wedi cael asesiad, a gynhaliwyd gan weithwyr proffesiynol perthnasol, i benderfynu a ydynt yn bodloni'r meini prawf dewisol ar gyfer symudedd i gael Bathodyn. Mae Llywodraeth Cymru'n cynnig bod awdurdodau lleol, mewn achosion ble mae person wedi cael ei asesu'n ddiweddar fel person anghymwys i gael HRMCDLA neu gyfraddau rhagnodedig elfen symudedd y PIP fel yr amlinellir, yn gallu gwrthod y cais. Mae hyn ar sail y ffaith na fyddai'n briodol i'r awdurdod lleol ddiystyru asesiadau proffesiynol o'r fath a byddai'r asesiad yn adlewyrchu'n fanwl gywir symudedd yr ymgeisydd, fel yr aseswyd yn erbyn y meini prawf cyfatebol ar gyfer bathodyn.

Os gwrthodwyd HRMCDLA neu gyfraddau rhagnodedig elfen symudedd y PIP i berson, gall ofyn i'r Adran Gwaith a Phensiynau ailystyried y penderfyniad, naill ai ar y pryd neu'n nes ymlaen, os bydd ei nam yn dirywio. Nid yw pobl dros 65 oed sy'n derbyn Cyfradd Is Elfen Symudedd y Lwfans Byw i'r Anabl yn gallu gwneud cais am gael eu hailystyried. Os bydd eu symudedd yn dirywio a'u bod yn gwneud cais am Fathodyn, bydd arnynt angen asesiad pellach gan yr awdurdod lleol.

Efallai bod rhai pobl yn gymwys am gyfraddau rhagnodedig elfen symudedd y PIP neu HRMCDLA ond eu bod heb wneud cais. Fodd bynnag, efallai y byddant yn elwa o hyd o gael Bathodyn, ac felly dylent allu cael gwneud cais am fathodyn o dan y meini prawf dewisol ar gyfer symudedd.

**Tystiolaeth dros Newid**

Yr awdurdodau lleol perthnasol sy'n gyfrifol am brosesu ceisiadau am Fathodyn. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cyfarwyddyd anstatudol i gynorthwyo awdurdodau lleol.

Mae awdurdodau lleol yn dibynnu ar wybodaeth gan ymgeiswyr ac asiantaethau eraill i benderfynu a yw ymgeisydd yn bodloni'r meini prawf ar gyfer Bathodyn. Os yw ymgeiswyr wedi cael asesiad am HRMCDLA neu PIP, maent yn gwneud y defnydd gorau o'r wybodaeth sydd ar gael i sicrhau Bathodyn. Cred Llywodraeth Cymru eu bod hefyd yn gwneud y defnydd gorau o'r wybodaeth sydd ar gael i wrthod cais heb asesu mewn achosion ble mae'r

ymgeisydd wedi cael ei asesu eisoes ac wedi cael ei wrthod am HRMCDLA neu PIP.

**Cynigion**

Felly mae Llywodraeth Cymru'n cynnig mai dim ond gan y bobl ganlynol ddylai awdurdodau lleol dderbyn ceisiadau o dan y meini prawf <u>dewisol</u> ar gyfer symudedd;

- pobl dros 65 oed nad ydynt yn derbyn HRMCDLA nac elfen symudedd PIP,
- pobl mewn oedran gweithio (16-64) sy'n gymwys am gyfraddau rhagnodedig elfen symudedd y PIP ond sydd heb wneud cais, a
- ceisiadau ar ran plant sydd â namau.

Bydd hyn yn sicrhau'r defnydd gorau o'r holl wybodaeth sydd ar gael, yn osgoi dyblygu ac yn sicrhau siwrnai well i'r cwsmer.

**Cwestiwn 9**

Ydych chi'n cytuno na ddylai awdurdodau lleol orfod prosesu ceisiadau am Fathodyn o dan y meini prawf dewisol ar gyfer symudedd pan mae'r ymgeisydd wedi cael ei asesu ar gyfer y budd -daliadau lles sy'n defnyddio'r un meini prawf ac wedi cael ei wrthod?

**Cwestiwn 10**

Y bwriad yw i'r cynnig yng nghwestiwn 9 fod yn berthnasol i bobl sydd wedi cael eu hasesu am y budd-daliadau perthnasol yn unig ac sydd wedi methu bodloni'r meini prawf cymhwysedd yn ystod y 12 mis blaenorol. Ydych chi'n cytuno bod hon yn amserlen resymol?

## Gorfodi

### Y Mater

Mae camddefnydd a cham-drin parhaus ar y Cynllun yn golygu bod llai o lefydd ar gael i ddeiliaid bathodynnau didwyll ac yn dwyn anfri ar y Cynllun.

Mae Rheoliadau 2000 yn caniatáu i awdurdodau lleol wrthod rhoi Bathodyn i berson pan mae ei Fathodyn wedi dod i ben os oes ganddynt dystiolaeth ei fod wedi caniatáu i'r Bathodyn gael ei gamddefnyddio. Dim ond pan ddaw Bathodyn i ben y gellir gweithredu fel hyn.

Mae Deddf Bathodynnau Parcio Personau Anabl 2013 ("Deddf 2013") yn grymuso awdurdodau lleol i orfodi'n well fesurau perthnasol i gam-drin, camddefnydd a thwyll parhaus yng nghyswllt y Bathodyn Glas. Mae Deddf 2013 yn caniatáu i Swyddogion Gorfodaeth Sifil neu unigolion eraill mewn awdurdodau lleol gadw Bathodyn os oes amheuaeth ei fod yn cael ei gamddefnyddio. Fodd bynnag, nid yw'r pŵer i gadw Bathodyn yn golygu y gellir gwneud hynny am gyfnod amhenodol. Er bod hwn yn gynnydd arwyddocaol tuag at ddileu camddefnydd, mae'n parhau'n broblem y mae'n rhaid i awdurdodau lleol a deiliaid Bathodynnau didwyll fynd i'r afael â hi.

Mae'r rheoliadau presennol ar gyfer Bathodynnau'n dweud mai dim ond wedi erlyniad am gam-drin o'r fath y gall awdurdod lleol gadw Bathodyn a'i dynnu'n ôl yn barhaol. Mae sicrhau erlyniad am gamddefnyddio neu gam-drin Bathodyn yn anodd ac yn ddrud i awdurdodau lleol. Mae hyn yn fwy anodd i awdurdodau heb Bwerau Sifil ar gyfer Gorfodaeth Parcio.

### Tystiolaeth dros Newid

Mae Llywodraeth Cymru'n parhau i dderbyn adroddiadau am gam-drin a chamddefnydd o gynllun y Bathodyn Glas ledled Cymru. Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am weinyddu a gorfodi'r cynllun.

O dan y rheoliadau presennol, caiff awdurdod lleol wrthod rhoi bathodyn neu ei ganslo o dan nifer o amgylchiadau, gan gynnwys camddefnyddio bathodyn sydd wedi arwain at "euogfarn berthnasol", sef canfod deiliad bathodyn neu drydydd parti'n euog o droseddau penodol o dan Ddeddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970 a Deddf Rheoliadau Traffig Ffyrdd 1984[3]. Y nod yw i'r troseddau perthnasol roi sylw i gamddefnydd o fathodyn gwirioneddol gan drydydd parti neu ddefnydd o fathodyn ffug/wedi'i addasu gan ddeiliad bathodyn neu drydydd parti. Fodd bynnag, hyd yma yng Nghymru, er gwaethaf adroddiadau am gam-drin a chamddefnyddio, dim ond dau achos o erlyn am gam-drin, camddefnydd neu dwyll cysylltiedig â Bathodyn sydd wedi bod.

### Cynnig

[3] Adran 21(4B) Deddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970 ac adrannau 115 ac 117 Deddf Rheoliadau Traffig Ffyrdd 1984

Gellid diwygio'r rheoliadau fel bod awdurdodau lleol yn gallu canslo Bathodyn oherwydd camddefnydd heb "euogfarn berthnasol", os oes tystiolaeth glir o gamddefnydd neu gam-drin parhaus a chyson o fathodyn.

**Cwestiwn 11**

Ydych chi'n meddwl y dylai awdurdodau lleol allu canslo Bathodyn am gamddefnydd os oes diogon o dystiolaeth yn dangos bod Bathodyn wedi cael ei gamddefnyddio neu ei gam-drin yn gyson, heb "euogfarn berthnasol"?

**Cwestiwn 12**

Os ydych chi wedi ateb ydw i gwestiwn 11 uchod, o dan ba amgylchiadau ydych chi'n ystyried y gellid cyfiawnhau gwrthod rhoi bathodyn neu ei ganslo?

**Cwestiwn 13**

Beth fyddai'n dystiolaeth ddigonol yn eich barn chi o gamddefnydd neu gam-drin er mwyn gwrthod rhoi bathodyn neu ei ganslo, heb fod yn "euogfarn berthnasol"?

**Ffurflen Ymateb yr Ymgynghoriad**

Eich enw:

Sefydliad (os yw'n berthnasol):

e-bost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

**Cwestiwn 1**

Ydych chi'n cytuno y dylai pobl sy'n "*methu cerdded neu sy'n cael anhawster sylweddol cerdded oherwydd anabledd dros dro ond sylweddol sy'n debygol o bara am gyfnod o 12 mis o leiaf*" gael Bathodyn dros dro?

**Ydw** ☐ **Nac ydw** ☐

**Sylwadau**

**Cwestiwn 2**

Ydych chi'n meddwl bod y rhestr isod yn briodol?

- Pobl sydd â thorasgwrn cymhleth yn y goes gyda theclynnau allanol
- Pobl sydd wedi cael strôc neu anaf i'r pen ac sy'n adfer yn araf a graddol
- Pobl sydd â thrawma i asgwrn y cefn, gan golli gallu niwrolegol yn y goes, ac sy'n adfer yn araf a graddol
- Pobl sydd â nam difrifol ar allu'r goes ac sy'n aros am gymal newydd neu wedi cael un ac yn adfer yn arafach na'r disgwyl

**Ydw** ☐ **Nac ydw** ☐

**Cwestiwn 3**

Ydych chi'n meddwl y dylai'r namau sydd wedi'u rhestru uchod gymhwyso am fathodyn?

**Ydw** ☐ **Nac ydw** ☐

**Sylwadau**

**Cwestiwn 4**

Ydych chi’n meddwl ei bod yn rhesymol gofyn i ymgeiswyr o dan y meini prawf cymhwysedd arfaethedig ar gyfer namau dros dro ddarparu tystiolaeth gan eu gweithwyr iechyd proffesiynol, neu gael eu cyfeirio at therapydd galwedigaethol?

**Ydw** ☐ **Nac ydw** ☐

**Sylwadau**

**Cwestiwn 5**

Am faint ddylid rhoi Bathodynnau o dan y meini prawf cymhwysedd arfaethedig ar gyfer namau dros dro?

**Blwyddyn** ☐ **Dwy flynedd** ☐ **Tair blynedd** ☐

**Sylwadau**

**Cwestiwn 6**

Ydych chi’n cytuno mai dim ond at weithwyr iechyd proffesiynol annibynnol ddylai awdurdodau lleol droi, ac nid meddygon teulu (lle mae angen arbenigedd meddygol ychwanegol), i benderfynu a yw ymgeiswyr yn bodloni’r meini prawf cymhwysedd dewisol ar gyfer symudedd?

**Ydw** ☐ **Nac ydw** ☐

**Sylwadau**

**Cwestiwn 7**

A oes unrhyw amgylchiadau ble dylai gwybodaeth gan feddyg teulu gael ei defnyddio i asesu cais am Fathodyn yn eich barn chi? Os felly, beth yw’r amgylchiadau hyn?

**Oes** ☐ **Nac oes** ☐

**Sylwadau**

**Cwestiwn 8**

Ydych chi’n cytuno y dylid rhoi prosesau mwy effeithlon yn eu lle ar gyfer deiliaid Bathodynnau er mwyn iddynt gael newid eu bathodynnau pan maent yn dod i ben heb ailasesu?

**Ydw** ☐ **Nac ydw** ☐

**Sylwadau**

**Cwestiwn 9**

Ydych chi'n cytuno na ddylai awdurdodau lleol orfod prosesu ceisiadau am Fathodyn o dan y meini prawf dewisol ar gyfer symudedd pan mae'r ymgeisydd wedi cael ei asesu ar gyfer y budd -daliadau lles sy'n defnyddio'r un meini prawf ac wedi cael ei wrthod?

**Ydw** ☐ **Nac ydw** ☐

**Sylwadau**

**Cwestiwn 10**

Y bwriad yw i'r cynnig yng nghwestiwn 9 fod yn berthnasol i bobl sydd wedi cael eu hasesu am y budd-daliadau perthnasol yn unig ac sydd wedi methu bodloni'r meini prawf cymhwysedd yn ystod y 12 mis blaenorol. Ydych chi'n cytuno bod hon yn amserlen resymol?

**Ydw** ☐ **Nac ydw** ☐

**Sylwadau**

**Cwestiwn 11**

Ydych chi'n meddwl y dylai awdurdodau lleol allu canslo Bathodyn am gamddefnydd os oes digon o dystiolaeth yn dangos bod Bathodyn wedi cael ei gamddefnyddio neu ei gam-drin yn gyson, heb "euogfarn berthnasol"?

**Ydw** ☐ **Nac ydw** ☐

**Sylwadau**

**Cwestiwn 12**

Os ydych chi wedi ateb ydw i gwestiwn 11 uchod, o dan ba amgylchiadau ydych chi'n ystyried y gellid cyfiawnhau gwrthod rhoi bathodyn neu ei ganslo?

**Sylwadau**

**Cwestiwn 13**

Beth fyddai'n dystiolaeth ddigonol yn eich barn chi o gamddefnydd neu gam-drin er mwyn gwrthod rhoi bathodyn neu ei ganslo, heb fod yn "euogfarn berthnasol"?

**Sylwadau**

**Cwestiwn 14**: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y gofod hwn i roi gwybod amdanynt.

Nodwch yma:

Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y fewnrwyd neu mewn adroddiad. Os yw'n well gennych i'ch ymatebion fod yn ddienw, ticiwch yma: ☐